## Addysg a Dysgu Proffesiynol Athrawon

**Y trefniadau o ran datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y gweithlu presennol**

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i addysg a dysgu proffesiynol athrawon, yn arbennig, parodrwydd y gweithlu i weithredu'r cwricwlwm newydd. Mae'n ceisio tystiolaeth yn benodol ar y canlynol:

- Y trefniadau o ran datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y gweithlu presennol;
- Rôl addysg gychwynnol athrawon;
- Digonolrwydd y gweithlu yn y dyfodol.

**Rhagarweiniad**

Mae UCAC yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad hwn. Mae UCAC yn croesawu gweledigaeth Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno cwricwlwm newydd i Gymru ond rhaid i'r Llywodraeth sylweddoli mai dim ar chwarae bach bydd y cwricwlwm newydd yn llwyddiant ac yn arwain at godi safonau. Rhaid wrth fuddsoddiad sylweddol i baratoi'r gweithlu.

Wrth groesawu Cwricwlwm i Gymru yn dilyn adroddiad Dyfodol Llwyddiannus gan yr Athro Graham Donaldson, rhaid cydnabod bydd paratoi a gweithredu'r cwricwlwm newydd yn creu heriau a bod rhaid gosod pwyslais mawr a'r hyfforddi'r gweithlu. Mae'r egwyddorion ar gyfer y cwricwlwm yn newydd yn eu hanfod ac os yw'r egwyddorion hyn am gael eu gweithredu'n effeithiol mae gofyn hyfforddiant trylwyr i'r gweithlu.

Credwn, hefyd, y gellid bod tipyn o waith yn 'gwerthu'r' egwyddorion hyn i rhannau o'r gweithlu, yn ogystal. Mae angen cofio bod angen hyfforddiant perthnasol o safon uchel ar athrawon, athrawon addysg bellach, cynorthwywyr ac arweinwyr a bydd yr hyfforddiant yn wahanol yn dibynnu ar rôl a chyfrifoldebau'r unigolion. Mae gweithlu ein hysgolion yn gwegian dan lwyth gwaith ers blynyddoedd. Bu pwysau mawr ar bob rhan o'r gweithlu addysg i weithredu newidiadau mawr dros ddegawdau (athrawon, cymhorthyddion, arweinwyr). Wrth groesawu dyfodiad Cwricwlwm i Gymru credwn fod yn rhaid cyflwyno'r newidiadau a'r hyfforddiant yn effeithiol fel na fydd angen ail ymweld â rhannau, gan orfodi newidiadau pellach a fydd yn ychwanegu at lwyth gwaith ein hysgolion.

Pan gyflwynwyd y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru sawl blwyddyn yn ôl bellach, roedd y syniadaeth yr un mor chwyldroadol ar y pryd. Ni fuddsoddwyd yn ddigonol ar hyfforddiant sydd wedi golygu nad yw cyflwyniad y Cyfnod Sylfaen wedi bod yr un mor llwyddiannus ym mhob ysgol. Yn wir, mae dal angen gwella'r arfer yn y Cyfnod Sylfaen mewn rhai ysgolion ac mae hyn yn deillio o'r diffyg buddsoddiad cynnar hwn. Ni allwn fforddio i gyflwyniad y cwricwlwm newydd ddioddef o'r fath diffyg buddsoddiad yn y gweithlu.

Rhaid sicrhau fod y gweithlu yn barod, yn deall ac yn awyddus i'w gyflwyno a dim ond trwy gyfathrebu effeithiol, lleihau llwyth gwaith a hyfforddiant addas, digonol, y sicrheir hyn. Byddai methiant yn adlewyrchu'n ddifrifol ar addysg yng Nghymru.

Mae'n wir ofid gennym na fydd cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus oni bai y gwelir hyfforddiant trylwyr fel bo'r cwricwlm yn wir barod i'w weithredu a bod y gweithlu yn hyderus ac yn deall yr anghenion.

**1. Y trefniadau o ran datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y gweithlu**

1.1. Mae'n bryder gan UCAC fod y trefniadau ar gyfer datblygiad parhaus y gweithlu yn annigonol, a hynny ers nifer o flynyddoedd, ac nid yw'r Fargen Newydd (New Deal) wedi llwyddo i newid hyn, hyd y gwelwn ni. Credwn mai hyfforddiant yw'r agwedd bwysicaf o safbwynt paratoi'r gweithlu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru.

1.2. Mae sawl Adroddiad Blynyddol Estyn wedi nodi bod angen gwella ar y dysgu a'r addysgu yng Nghymru. Cydnabyddir mai trwy hyfforddiant (a lleihad mewn llwyth gwaith) y gellir codi safonau'r


addysgu. Credwn ei bod yn hollol angenrheidiol sicrhau bod arian digonol ar gyfer hyfforddiant trylwyr o'r gweithlu ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd a agweddau eraill ar waith athrawon (e.e. bydd anghenion hyfforddiant penodol yn codi o'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol).

1.3. Cydnabyddir gan grwpiau rhan ddeiliaid bod rhannu arfer dda yn ffordd effeithiol o hyfforddi'r gweithlu. Cred UCAC ni ellir gwneud hyn yn llwyddiannus oni bai bod buddsoddiad sylweddol. Prun a'i rhwng ysgol ag ysgol, adran ag adran neu ddosbarth a dosbarth y rhennir arferion bydd angen arian i ryddhau athrawon os am ganiatáu cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol a chyfleodd i addysgwyr fyfyrio ar eu hymarfer a'u sgiliau.


1.4. Mae UCAC o'r farn bod angen sicrhau hyfforddiant digonol ar gyfer arweinwyr ysgol, hefyd. Credwn fod hyn yn hollol sylfaenol yn y broses o gyflwyno'r newidiadau. Mae'n bosib y bydd rhaid i elfen o'r hyfforddiant olygu 'gwerthu'r' egwyddorion newydd i'n harweinwyr a hyfforddi ar sut i gyflwyno a rheoli'r fath newid anferth i'r cwricwlwm.

1.5. Cynhaliodd UCAC ymchwil (trwy holiadur i aelodau) am eu gwybodaeth am ddatblygiadau'n ymwneud a'r cwricwlwm newydd a derbyn cefnogaeth wrth baratoi amdano.

- Isod gwelir ymateb i gwestiwn a ofynnwyd yn benodol i arweinwyr ysgol ynglŷn â'r lefel o gefnogaeth er mwyn cyflawni'r gwaith i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Gwelwn fod 66.67% o'r 45 o arweinwyr ymatebodd yn teimlo na chafwyd digon o gefnogaeth i gyflawni'r gwaith hyd yma.





- Pan ofynnwyd yr un cwestiwn i athrawon ysgol gwelwn fod 56.25% o'r 255 wnaeth ymateb yn nodi nad oedd digon o wybodaeth ganddynt i gyflawni'r gwaith.




- Teimla ein haelodau y bydd angen hyfforddiant sylweddol i'r gweithlu cyfan os yw'r cwricwlwm newydd am fod yn llwyddiannus. Mae hon yn dasg enfawr a bydd angen adnoddau sylweddol. Cred UCAC fod hyn yn cyfiawnhau diwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd ychwanegol.

- Mae UCAC yn cydnabod yr anghyfleustra i rieni ond mae'r angen am hyfforddiant yn bwysig dros ben. Ar adeg pan mae arian yn brin, mae defnydd da o ddiwrnod HMS yw ffordd cost effeithiol i ysgol sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant safonol, perthnasol. Cred UCAC, felly, dylai Ysgrifennydd y Cabinet ymarfer yr hawl i ychwanegu at y nifer o ddiwrnodau HMS eleni a than bod y Cwricwlwm newydd yn ei le.

- Mae'n bryder gan UCAC bod ein haelodau yn nodi nad ydynt yn derbyn llawer o wybodaeth am newidiadau i'r cwricwlwm gan Lywodraeth Cymru na'r Consortia Rhanbarthol. Nodir mai'r brif ffynhonnell gwybodaeth yw Uwch Dimau Rheoli'r ysgol a ffynonellau eraill. Deallwn fod yr hyfforddiant a drefnwyd gan y Consortia hyd yma wedi amrywio o ran natur yr hyfforddiant a phwy sy'n cael eu targedu. Credwn fod angen o leiaf rhywfaint o gysondeb er mwyn sicrhau bod negeseuon pwysig yn cyrraedd pawb a bod pob rhan o'r gweithlu yn derbyn hyfforddiant addas o safon.




| Answer Choices | Responses |
|---|---|
| Uwch-dîm yr ysgol | 53.85% |
| Cynghorwyr her/Consortiwm Rhanbarthol | 10.00% |
| Llywodraeth Cymru | 20.77% |
| Ffynhonnell arall (manylwch isod) | 30.77% |

**Hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg**

1.6. Os yw'r ddarpariaeth o safbwynt datblygiad proffesiynol yn gyffredinol yn anfoddhaol, yna mae'r ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn hollol anfoddhaol ac annigonol. Credwn fod yn rhaid edrych eto ar hyn, gan geisio sicrhau fod awdurdodau lleol, consortia a darparwyr eraill yn cydweithio llawer er mwyn darparu hyfforddiant o safon uchel ac osgoi dyblygu gwaith. Mae hyfforddiant ac adnoddau yn Gymraeg yn ddigon prin, ond rydym yn gweld enghreifftiau o ddarparwyr mewn mwy nag un canolfan yn paratoi'r un cwrs a'r un math o ddeunydd hyfforddiant.

1.7. Mae'r strategaeth Miliwn o Siaradwyr Cymraeg yn hollol berthnasol i weithredu'r cwricwlwm newydd a bydd angen sicrhau hyfforddiant addas i wella sgiliau Cymraeg y gweithlu a hefyd i wella sgiliau addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae angen darganfod beth yw dyheadau'r gweithlu presennol o ran gwella sgiliau Cymraeg/cyfleoedd defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a chynllunio ac ariannu hyfforddiant o safon uchel i fynd i'r afael â'r anghenion hyn. Mae sawl categori o gefnogaeth debygol sydd angen a bydd angen teilwra cefnogaeth at anghenion yr unigolyn ond gwneud hynny'n strategol. Mae'n rhaid i unrhyw hyfforddiant ddigwydd tu fewn y diwrnod gwaith.

1.8. Ar hyn o bryd mae 12,292 (33%) o athrawon sydd wedi cofrestru gyda CGA (Cyngor y gweithlu Addysg) yn dweud eu bod yn siaradwyr Cymraeg; mae 10,139 (27%) ohonynt yn nodi eu bod yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n debygol byddai'r 2000+ o athrawon hyn nad ydynt yn teimlo'n hyderus i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd, yn awyddus i wella'u sgiliau fel

bod modd iddynt wneud cyfraniad at naill ai Gymreigio ethos eu hysgol neu wneud ychydig o addysgu cyfrwng Cymraeg.

1.9. Bydd angen sicrhau bod modd adeiladu ar sgiliau Cymraeg y gweithlu dros gyfnod (yn ôl dymuniad yr unigolyn). Mae'n bosib byddai cyflwyno gwybodaeth i rai am y Gymraeg a'r disgwyliadau o ran hawliau disgyblion a rhieni, o fudd. Mae'n bwysig torri lawr rhwystrau a pheidio â gelyniaethu pobl.

**Cymhwysedd Digidol**

1.10. Gyda chyhoeddiad y Fframwaith Cynhwysedd Digidol eleni, credwn y bydd angen hyfforddiant sylweddol yma yn ogystal. Cred UCAC bod cyfle yma i ysgolion gynnal awdit o'u hanghenion o safbwynt Cynhwysedd Digidol. Byddai modd trefnu hyfforddiant digonol mewn da bryd cyn i'r cwricwlwm newydd gael ei gyflwyno'n llwyr mewn ysgolion.

**Athrawon Cyflenwi**

1.11. Mae UCAC yn ymwybodol bod datblygiad proffesiynol y gweithlu cyflenwi yn hollol annigonol. Mae'n holl bwysig bod athrawon cyflenwi yn derbyn hyfforddiant ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Prin iawn fu'r hyfforddiant ar eu cyfer dros y blynyddoedd ac mae hyn yn arbennig o wir ym marn UCAC ers sefydlu asiantaethau i gyflogi athrawon yng Nghymru. Mae'n holl bwysig gweithredu ar hyn ar frys, er mwyn sicrhau bod y gweithlu cyflenwi yn ymwybodol o holl ddatblygiadau Cwricwlwm i Gymru.

## 2. Rôl addysg gychwynnol athrawon

2.1. Cred UCAC ei bod yn holl bwysig bod egwyddorion Donaldson yn cael eu cyflwyno i fyfyrwyr fel rhan o'u hyfforddiant cychwynnol a hynny ar fyrder. O sicrhau fod yr hyfforddiant yn effeithiol gall Athrawon Newydd Gymhwyso gyrraedd y dosbarth yn hollol hyderus. Lle bo ansicrwydd yn bodoli mewn ysgolion, mae'n bosib y gallai'r Athrawon Newydd Gymhwyso fod yn allweddol i lwyddiant sefydlu'r cwricwlwm newydd.

## 3. Digonolrwydd y gweithlu yn y dyfodol

3.1. Mae recriwtio'r niferoedd cywir o athrawon gyda'r sgiliau sydd angen arnom i'r swyddi amrywiol hyn yn holl bwysig. Er mwyn gallu gwneud hyn yn effeithiol mae angen cael gwybodaeth drylwyr am natur y gweithlu presennol a chynllunio'n strategol, gan gynnwys gosod targedau a cherrig milltir i fesur llwyddiant dros amser.

3.2. Mae hyn yn arbennig o bwysig at bwrpas ateb gofynion y cwricwlwm newydd a Strategaeth Miliwn a Siaradwyr Cymraeg. Mae angen sicrhau trosolwg a chynllunio strategol er mwyn gosod targedau clir ac uchelgeisiol ar gyfer:

- cynyddu niferoedd / canrannau myfyrwyr i ddilyn y cyrsiau Addysg Gychwynnol Athrawon trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer addysgu ym mhob cyfnod allweddol a phob pwnc
- cynyddu nifer yn dilyn cwrs Cymraeg fel pwnc.
- Cynyddu niferoedd (trwy feithrin ei sgiliau) sydd yn hyderus i gyfrannu at greu ethos Cymreig mewn ysgolion.

3.3. Gellir dadlau bod y broblem o gynllunio'r gweithlu addysg yn broblem systemig hir dymor. Mae gormod yn cael ei adael i hap a damwain ar hyn o bryd. Hyderwn bydd y gwaith paratoi sydd wedi ei gychwyn gan Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu data yn dod â gwybodaeth fwy penodol am y gweithlu addysg, gan gynnwys lefel hyfedredd / cymwysterau Cymraeg a dyheadau'r gweithlu ar gyfer eu gyrfa. Mae'n bwysig defnyddio dull effeithiol, hwylus o gasglu data angenrheidiol ac i wneud hyn cyn gynted â phosib.

3.4. Yn y cyfamser, nes bod y system yn ei le ar gyfer casglu data mae angen gweithredu ar yr hyn rydym yn gwybod yn bendant, e.e.

- nid ydym yn hyfforddi digon o athrawon i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg nac i arbenigo yn y Gymraeg fel pwnc
- mae'n ymddangos yn flynyddol nad yw'r Sefydliadau Addysg Uwch yn ymwybodol o'r niferoedd o fyfyrwyr sydd yn gallu siarad Cymraeg, os nad ydynt yn dilyn cwrs / cyrsiau cyfrwng Cymraeg
- mae 27% o athrawon sydd wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg yn dweud eu bod yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg (bydd angen llawer mwy o athrawon cyfrwng Cymraeg na hyn er mwyn gwireddu'r weledigaeth)
- mae 33% o athrawon sydd wedi cofrestru gyda CGA yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg
- mae meysydd o brinder wedi'u hadnabod yn gyffredinol (gyda'r Llywodraeth yn defnyddio abwyd ariannol i geisio denu myfyrwyr i hyfforddi fel athrawon - ond mae rhaid codi'r cwestiwn a yw'r abwyd yn llwyddiant?)

3.5. Mae'r newidiadau i drefniadau Addysg Gychwynnol Athrawon a'r system achredu newydd yn cynnig cyfle, e.e. gellir defnyddio'r system achredu i sicrhau bod llefydd cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg fel pwnc ar gael ac yn cael eu llenwi yn y sefydliadau addysg uwch / partneriaethau. Mae angen gosod targedau ar gyfer hyn a chynyddu'r niferoedd.

3.6. Mae meysydd amrywiol o brinder ac nid ydym, hyd yma, wedi bod yn cynllunio'n ddigonol er mwyn cyflenwi niferoedd ar gyfer dyfodol y gweithlu addysg (yr holl weithlu) yng Nghymru. Mae'r twf mewn niferoedd disgyblion, hyd yma yn y cynradd ac o hyn ymlaen yn yr uwchradd, yn golygu ein bod yn dibynnu ar yr athrawon rydym yn hyfforddi i lenwi swyddi gwag ond hefyd ar athrawon yn dychwelyd i'r proffesiwn. Ond nid yw'n prifysgolion eleni wedi llenwi llefydd ar gyfer HCA (heblaw am un sefydliad), mae mwy o'r proffesiwn yn dymuno gweithio'n rhan amser (er mwyn cael cydbwysedd bywyd gwaith), ac mae'n anodd rhagweld faint bydd yn dymuno dychwelyd i'r proffesiwn ar ôl toriad gyrfa.

3.7. Yn gysylltiedig â'r uchod, cred UCAC ei bod yn mynd yn gynyddol anoddach i ddenu myfyrwyr i'r proffesiwn. Mae hyn yn sicr yn rhannol oherwydd llwyth gwaith ond credwn fod tâl ac amodau yn ffactorau yma yn ogystal.

3.8. Mae'n bryder gan UCAC bod nifer o athrawon ifanc yn gadael y proffesiwn. Mae hyn am nifer o resymau gwahanol mae'n siŵr ond mae llwyth gwaith yn rheswm sy'n cael ei amlygu'n aml gan ein haelodau. Rhaid mynd i'r afael â'r broblem gynyddol hon a cheisio sicrhau fod athrawon sydd yn cychwyn yn y proffesiwn yn aros yn y proffesiwn.

**UCAC**
**Ionawr 2017**